# POLISI ADDASIADAU I BOBL ANABL

**Mawrth 2025**

| Rhif Fersiwn | Awdur | Pwrpas/Newid | Adolygydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| 1.0 | Robin Davies | Diwygio Amodau Grant Gorfodol.<br>Gweithredu Grant Dewisol.<br>Diwygio Swm ac Amodau Grant Dewisol. | Neal Cockerton | 22/09/21 |
| 2.0 | Robin Davies | Diwygio Amodau Grant Dewisol i dynnu'r prawf modd. | Vicky Clark | 01/08/22 |
| 3.0 | Robin Davies | Diwygio Polisi Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl i uno gyda Pholisïau Addasiadau'r Sector Preifat a'r Sector ALI. | Vicky Clark | 01/09/23 |
| 4.0 | Robin Davies | Diwygio geiriad polisi a rhai newidiadau i'r cyfyngiad grant dewisol, telerau grant adleoli, pridiannau tir a newid i reolau defnydd y contractwr. | Vicky Clark | 28/02/25 |

**CYNNWYS**


1. CYFLWYNIAD 3

2. DEDDFWRIAETH 3

**EIDDO'R CYNGOR**

3. AMODAU CYFFREDINOL

4

ATODIAD 1 - MÂN ADDASIADAU 5

ATODIAD 2 - ADDASIADAU MAWR 6

**EIDDO PREIFAT**

4. AMODAU CYFFREDINOL 7

5. TALIADAU GRANT 9

6. CYMORTH AMGEN 10

7. ASESIAD ARIANNOL 10

ATODIAD 3 - MÂN ADDASIADAU 11

ATODIAD 4 - GRANT DEWISOL 11

ATODIAD 5 - GRANT GORFODOL CYFLEUSTERAU I BOBL ANABL 13

ATODIAD 6 - GRANT YCHWANEGOL DEWISOL 13

ATODIAD 7 - GRANT ADLEOLI 14

## 1. Cyflwyniad

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cymorth grant i gynorthwyo gyda darparu addasiadau ar gyfer person anabl mewn annedd.

Y broses asesu

I wneud ymholiad ar gyfer addasiad, dylai unigolion gysylltu â'r tîm Un Pwynt Mynediad, Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01352 702642. Bydd y Tîm Dyletswydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu eich cynghori os yw unigolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asesiad gan Therapydd Galwedigaethol.

Os fydd asesiad wedi cael ei gwblhau ac ystyrir bod angen addasiad, bydd y Therapydd Galwedigaethol yn cwblhau Ffurflen Argymell Addasiad a fydd yn cynghori'r cleient o'r broses a fydd yn cael ei dilyn.

Bydd y Syrfëwr Addasiadau Tai a Therapydd Galwedigaethol yn trafod yr argymhellion er mwyn sicrhau gall y gwaith gael ei gyflawni'n rhesymol ac yn ymarferol yn ôl yr amodau cyffredinol. Mae gofyniad i archwilio'r eiddo er mwyn hwyluso'r asesiad hwn.

Adolygu a Diwygio Polisi

Bydd y Polisi hwn yn parhau i fod mewn grym hyd nes bod angen ei adolygu a'i ddiwygio yn unol ag unrhyw adolygiad gan Lywodraeth Cymru o Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai.

Bydd y Cyngor yn hysbysu aelodau o'r cyhoedd o unrhyw addasiadau i'r Polisi hwn, er enghraifft yn sgil mân newidiadau deddfwriaethol, trwy ein gwefan fel bo'n briodol.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Polisi hwn yn cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol sylweddol ar gyfer grwpiau diamddiffyn a'r rhai sydd ag anableddau. Mae'n lleihau anghydraddoldebau a brofir gan y grwpiau hynny o ran iechyd, tai ac incwm.

Rydym yn ceisio gwella ansawdd ein gwasanaethau yn barhaus ar gyfer ein cwsmeriaid ac wedi ymrwymo i roi gwasanaeth cyfartal i holl aelodau'r cyhoedd waeth beth yw eu hoedran, anabledd, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

## 2. Deddfwriaeth

Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 yw'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu darpariaeth y Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu cymorth grant i gynorthwyo gyda darparu addasiadau ar gyfer person anabl mewn annedd.

Ym mis Gorffennaf 2002 gwnaeth y Llywodraeth newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth grant tai, gan gyflwyno Gorchymyn Diwygio Rheolaethol (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002. Mae'r gorchymyn hwn yn galluogi awdurdodau lleol i ffurfio eu polisïau cymorth ariannol hyblyg eu hunain ar gyfer eu cyllid, er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau ac anghenion lleol penodol.

Yn Ebrill 2021, diwygiodd y Llywodraeth y Safonau Gwasanaeth Tai i dynnu'r prawf modd gorfodol ar gyfer holl addasiadau canolig a throsglwyddo pwerau i awdurdodau lleol o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio er mwyn gallu creu eu polisïau dewisol eu hunain.

O ganlyniad, mae dyletswydd ar yr Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eu polisi cymorth ariannol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu telerau'r cynllun hwn ac unrhyw gymorth arall a gynigir.

Yn ogystal, creodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 bŵer dewisol o'r enw 'pŵer lles' i alluogi Awdurdodau Lleol wneud unrhyw beth maent yn ei ystyried yn debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylchedd yr ardal a/neu'r unigolion yn yr ardal, os nad ydynt wedi'u cyfyngu rhag gwneud hynny gan ddeddfwriaeth arall.

Mae Adran 25, Deddf Llywodraeth Leol 1988, yn datgan bod angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidog er mwyn darparu cymorth ariannol, oni bai bod y cymorth neu'r budd-dal yn cael ei ddarparu wrth ymarfer unrhyw bwerau yn Erthygl 3 Gorchymyn Diwygio Rheolaethol (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002.

O ganlyniad, mae natur eang Gorchymyn Diwygio Rheolaethol (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 a'r pwerau 'lles' cyffredinol a gynhwysir yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, yn golygu y bydd Awdurdodau Lleol yn gallu darparu cymorth ariannol trwy ddarparu grantiau dewisol a chynlluniau benthyca i'r ystod lawn o ymgeiswyr a gallent atodi amodau neu delerau sy'n briodol dan yr amgylchiadau.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu darpariaeth o ystod o wasanaethau ar gyfer y rhai y disgrifir yn anabl yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

## ADDASIADAU I EIDDO'R CYNGOR

### 3. Amodau cyffredinol

Mae pob math o gymorth a nodir yn y ddogfen bolisi hon yn destun nifer o amodau cyffredinol.

Rhaid i holl unigolion sy'n gwneud cais am addasiadau anabl fodloni'r gofynion canlynol.

- Yn breswylydd parhaol yn Sir y Fflint.
- Yn Ddeiliaid Contract Tai Sir y Fflint, neu eu partner.
- Neu'n aelod o deulu agos y deiliad contract sydd wedi bod yn breswylydd yn yr aelwyd am o leiaf 12 mis, neu sydd wedi symud i'r eiddo yn dilyn cyngor a chanllawiau gan weithwyr proffesiynol yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r golwg o wneud addasiadau.
- Rhaid i holl geisiadau am gymorth ddod gan y Tîm Therapydd Galwedigaethol ar eu Ffurflen Argymell Addasiad penodol.
- Mewn amgylchiadau eithriadol, lle bo'n rhaid gadael yr eiddo i gyflawni'r gwaith, efallai y gall y Cyngor gynorthwyo i ganfod llety dros dro.

- Fel arfer, dim ond un eiddo a gaiff ei addasu ar gyfer pob unigolyn anabl ac os yw plentyn yn anabl sydd â rhieni wedi gwahanu, byddai'r brif breswylfa'n cael ei benderfynu yn ôl y rhiant sy'n derbyn y budd-dal plant.

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull ystyriol wrth ymateb i geisiadau i addasu eiddo, gan ei fod yn bwysig ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai. Byddwn bob amser yn edrych i gael defnyddio'r ôl-troed presennol i ddiwallu'r angen gan mai dyma'r dewis mwyaf cost effeithiol hefyd.

Os yw'r adran dai yn dod i'r casgliad nad yw'n rhesymol neu'n ymarferol i addasu'r eiddo, bydd y deiliad contract yn cael eu pasio ymlaen i'r Therapydd Galwedigaethol Tai i adolygu'r achos a chwilio am eiddo mwy addas. Mae'r penderfyniad i gyflawni'r gwaith ai peidio yn ystyried materion megis:

- Graddfa y mae'r cartref presennol yn gallu cael ei addasu.
- Cost y gwaith mewn perthynas â buddion hirdymor.
- Argaeledd llety amgen mwy addas.
- Graddfa'r ddeiliadaeth o fewn yr eiddo er enghraifft, mewn annedd teuluol dwy neu dair ystafell wely gyda than-feddiannaeth, neu lle mae gofyn i ddarparu ystafell wely ychwanegol.
- Lle bydd gofodau parcio a/neu rampiau mynediad yn effeithio'n negyddol ar ddiogelwch ac amwynder yr ardal.
- Os fydd y gwaith yn effeithio ar allu'r Cyngor i brydlesu'r eiddo yn y dyfodol.
- Os oes angen gosod cawod gyda mynediad gwastad ar lawr cyntaf yr eiddo, os yw'n dŷ neu fflat.

Os yw deiliad contract yn dewis gosod eu haddasiadau eu hunain, rhaid iddynt geisio caniatâd a chymeradwyaeth gan y Cyngor yn unol â thelerau'r contract. Os cymeradwyir, ac os yw o natur dechnegol, ni fydd y rhain yn cael eu cynnal gan y Cyngor, a bydd y deiliad contract yn gyfrifol am unrhyw gostau gwasanaethu ac atgyweirio. Bydd rhaid i unrhyw ffioedd Rheoliadau Adeiladu a Chynllunio gael eu hysgwyddo gan y deiliad contract os yw'n gymwys. Ar ddiwedd y denantiaeth bydd angen i'r deiliad contract eu tynnu ac atgyweirio unrhyw ddifrod i'r eiddo. Fel arall, os yw'r Cyngor yn cytuno i gymryd cyfrifoldeb am yr addasiadau bydd y deiliad contract angen trosglwyddo perchnogaeth am ddim.

Mae unrhyw addasiadau i eiddo sydd wedi cael ei ariannu gan y Cyngor yn eiddo i Gyngor Sir y Fflint ac ni ddylai'r deiliad contract eu tynnu yn ystod neu ar ddiwedd eu tenantiaeth. Os yw addasiad yn cael ei dynnu heb gymeradwyaeth, yna bydd y deiliad contract yn gorfod talu am y gost lawn ar gyfer gosod un newydd.

Mewn amgylchiadau lle nad oes angen yr addasiad bellach, bydd y Cyngor yn ystyried ei dynnu os ellir ei ddefnyddio mewn cartref arall, bydd hyn yn seiliedig ar bob achos yn unigol.

Ni fydd y Cyngor yn tynnu unrhyw ystafell wlyb â mynediad gwastad os yr ystyrir ei fod yn addas i'r diben, neu unrhyw rampiau sydd wedi'u hadeiladu'n barhaol.

## Atodiad 1

| MÂN ADDASIADAU | |
|---|---|
| **Pwrpas** | Gwaith a ystyrir fel rhai sydd fel arfer yn costio llai na £1,000, gweler y Safonau Tai Diwygiedig i gael manylion o enghreifftiau o fân addasiadau. |
| **Meini Prawf Cymhwyso** | Gweler Amodau Cyffredinol. |
| **Enghreifftiau o Waith** | Rheiliau Gafael<br>Sêff Allweddi<br>Rheiliau Dwylo<br>Intercom Mynediad Drws<br>Tapiau lifer<br>Addasu Grisiau Presennol<br>Ramp Bach Dros Dro<br>Offer Gweithredu Ffenestr |

## Atodiad 2

| ADDASIADAU MAWR | |
|---|---|
| **Pwrpas** | Gwaith mwy i addasu eiddo er mwyn gweddu anghenion unigolyn anabl sy'n byw yn yr eiddo. |
| **Meini Prawf Cymhwyso** | Gweler Amodau Cyffredinol. |
| **Enghreifftiau o Waith** | <u>Addasiadau Canolig</u><br>Ramp mawr<br>Cawod mynediad gwastad<br>Lifft grisiau<br>Teclyn codi o'r to<br>Lloriau caled<br>Addasiadau cegin<br><br><u>Addasiadau Mawr</u><br>Lifft drwy'r llawr<br>Estyniadau<br>Gwaith mewnol strwythurol mawr |

# ADDASIADAU MEWN EIDDO PREIFAT

## 4. Amodau cyffredinol

Mae pob math o gymorth a nodir yn y ddogfen bolisi hon yn destun nifer o amodau cyffredinol.

Rydym yn rhoi cadarnhad o'n telerau ac amodau i bob cwsmer.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ystyried holl geisiadau am Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl a weinyddir o dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu cymorth dewisol trwy grant carlam ar gyfer addasiadau llai. Mae cynnyrch eraill ar gyfer cymorth cyfleusterau anabl hefyd yn cael eu darparu ar sail ddewisol. Bydd holl geisiadau am gymorth yn destun asesiad gan y Tîm Therapi Galwedigaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r polisi hwn yn darparu meini prawf er mwyn sicrhau bod grantiau'n cael eu dyfarnu'n deg ac yn gyson. Bwriad y Cyngor yw bodloni targedau perfformiad a safonau gwasanaeth fel y nodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu cymorth cyfleusterau anabl.

Gallwch wneud cais am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl os ydych yn berchennog tŷ, tenant yn rhentu gan landlord preifat, neu breswylydd cartref parc neu'n byw ar gwch preswyl.

Cyn i'r Addasiad Anabl gael ei gymeradwyo, mae Cyngor Sir y Fflint angen bod yn fodlon bod y gwaith yn angenrheidiol ac yn briodol i ddiwallu anghenion hirdymor yr unigolyn anabl a'i fod yn rhesymol ac yn ymarferol i gyflawni'r gwaith, gan ystyried oedran a/neu gyflwr yr adeilad preifat. Byddwn bob amser yn edrych i gael defnyddio'r ôl-troed presennol i ddiwallu'r angen gan mai dyma'r dewis mwyaf cost effeithiol hefyd.

Er mwyn sefydlu hyn, bydd y Tîm Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl yn asesu'r cais mewn ymgynghoriad gyda'r Tîm Therapi Galwedigaethol ac yn archwilio'r eiddo er mwyn asesu bod y gwaith arfaethedig yn dechnegol ymarferol, nad oes datrysiadau amgen rhesymol, ac nad oes unrhyw broblemau iechyd a diogelwch.

Mae unigolyn yn "anabl" os oes gan yr unigolyn anabledd ar gyfer dibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, yn destun y ddarpariaeth a wnaed o dan isadran 6. Rydych yn anabl o dan y Ddeddf Gydraddoldeb 2010 oes gennych amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau pob dydd arferol.

Mae gan berson anabledd os -
(a) Oes ganddo ef neu hi nam corfforol neu feddyliol, a
(b) bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar eu gallu i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.
Mae 'sylweddol' yn fwy na bychan neu ddinod, e.e. mae'n cymryd llawer hirach nag arfer i gwblhau tasg ddyddiol fel gwisgo amdanoch.
Mae 'hirdymor' yn golygu 12 mis neu fwy, e.e. cyflwr anadlu sy'n datblygu o ganlyniad i haint ar yr ysgyfaint.
Cyflwr cynyddol yw un sy'n mynd yn waeth dros amser. Gall bobl gyda chyflyrau cynyddol gael eu hystyried yn anabl. Byddwch yn diwallu'r diffiniad anabledd yn awtomatig o dan y Ddeddf Gydraddoldeb 2010 o'r dyddiad y cewch ddiagnosis o HIV, Canser neu MS.

Er mwyn cymeradwyo'r grant, rhaid i'r cais ac atgyfeiriad gan Therapydd Galwedigaethol fod ar gyfer y dibenion canlynol:

- Hwyluso mynediad gan y deiliad anabl:
    - i ac o'u heiddo.
    - i ystafell a ddefnyddir fel y brif ystafell deuluol.
    - i ystafell a ddefnyddir ar gyfer cysgu.
    - i ystafell lle mae tŷ bach, bath a/neu gawod, a sinc golchi dwylo.
- Cyfleusterau ar gyfer paratoi a choginio bwyd gan y deiliad anabl.
- Hwyluso mynediad a symudiad gan y deiliad anabl o amgylch yr annedd i ofalu am rywun sy'n ddibynnol arnynt, sydd fel arfer yn breswyliwr.
- I wneud yr adeilad yn ddiogel i'r deiliad anabl neu bobl eraill sy'n byw gyda'r deiliad anabl.
- I wella unrhyw system wresogi mewn annedd i fodloni anghenion arbenigol penodol y deiliad anabl. Os nad oes system wresogi mewn lle neu os nad yw'n addas, darparu system wresogi addas. Hefyd, galluogi'r unigolyn anabl i ddefnyddio'r rheolyddion gwresogi a goleuo a phŵer, gan eu gwneud yn fwy hygyrch neu ddarparu rheolyddion wedi'u haddasu.
- Galluogi mynediad i ac o'r ardd gan ddeiliad anabl neu wneud yr ardd yn ddiogel ar gyfer y deiliad anabl.

Mae'r gwaith perthnasol wedi'u cyfyngu i, neu'n cynnwys, gwaith a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r dibenion a nodir uchod.

- Mae'n rhaid cyflwyno pob cais am gymorth ar ffurflenni cais addasiadau swyddogol y Cyngor.
- Bydd angen i holl ymgeiswyr fod ag eiddo sydd wedi cofrestru â Chofrestra Dir Ei Fawrhydi.
- Mae taliad neu randaliad y grantiau yn amodol ar gyflawni'r gwaith cymwys i foddhad y Cyngor ac ar dderbyn anfoneb am y gwaith ac unrhyw ffioedd ategol neu broffesiynol.
- Dim ond un cais y gellir ei wneud o fewn 5 mlynedd, oni bai bod cyflwr y cwsmer wedi newid, bydd hyn yn cael ei adolygu gan y Therapydd Galwedigaethol ar gais.
- Lle bo'n briodol, efallai bydd angen ad-dalu'r grant os fydd yr ymgeisydd yn gwaredu'r eiddo, unai trwy werthu neu drosglwyddo o fewn 10 mlynedd o'r dyddiad ardystiedig. Gweler amodau yn atodiad 1-6 isod.
- Ni ddyfernir unrhyw gymorth tuag at gostau llety dros dro tra bod y gwaith Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn cael ei gyflawni, mae'r cyfrifoldeb hwn ar yr ymgeisydd.
- Os yw cais ar gyfer plentyn sydd â chyfrifoldeb rhieniol wedi'i rannu, dim ond un cais gellir ei wneud, a byddai hyn yn yr eiddo lle mae budd-dal plant yn cael ei dalu i'r rhiant.

Ni roddir grant am waith sydd wedi dechrau cyn dyddiad hysbysiad cymeradwyaeth y grant.

- Lle y pennir bod cais neu gymorth wedi'i benderfynu ar sail gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, gall y Cyngor ddal yr arian yn ôl neu orchymyn bod yr ymgeisydd yn eu had-dalu.
- Os yw'r ymgeisydd yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol, mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a gyflwynir fel rhan o gais am gymorth neu daliad ariannol, gan gynnwys manylion incwm a chynilon, efallai bydd y Cyngor yn atgyfeirio'r mater i'r Heddlu gyda'r nod o erlyn.

<u>Eithriadau i'r amodau ad-dalu</u>

Cydnabyddir y bydd amgylchiadau penodol lle y byddai'n amhriodol neu'n afresymol gofyn i'r unigolyn anabl ad-dalu'r grant wrth waredu eu heiddo. Mae'n rhaid cyflwyno cais ysgrifenedig am hawliadau ad-dalu i'r Cyngor, yn egluro amgylchiadau'r achos a'r rhesymau pam y byddai ad-dalu'r

grant yn achosi caledi gormodol. Bydd manylion pob achos unigol yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun a byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd o'r canlyniad yn ysgrifenedig.

Pan fydd eiddo wedi'i roi yn enw unigolyn arall mewn ewyllys neu ddiffyg ewyllys, bydd marwolaeth y perchennog yn sbardun ar gyfer ad-dalu, oni bai bod yr eiddo yn brif fan preswylio'r sawl sy'n etifeddu'r eiddo ar adeg cyflwyno'r cais. Yn yr achos hwn bydd yr amodau i ad-dalu'r cymorth grant a meddiannu'r eiddo yn trosglwyddo i'r perchennog newydd.

Diwygiadau/Amrywiadau ar ôl cymeradwyo'r grant

Os, yn sgil amgylchiadau sydd tu hwnt i reolaeth yr ymgeisydd, na ellir cyflawni'r gwaith cymwys ar gyfer y costau tendro a gyflwynwyd gyda'r cais, bydd y Cyngor yn parhau i wneud y gwaith heb ystyried unrhyw gostau ychwanegol i'r cleient.

Addasiadau yn disgyn tu allan i'r cymorth grant

Os yw cost yr addasiad yn fwy na chyfanswm y cymorth sydd ar gael gan y Cyngor, gall yr ymgeisydd gael cynnig grant adleoli neu eu rhoi ar Gofrestr Tai Arbenigol y Cyngor.

Defnyddio Contractwyr eu Hunain

Gall yr ymgeiswyr wneud cais i ddefnyddio eu contractwyr eu hunain. Er mwyn hwyluso hyn, rhaid i'r gwaith ddilyn Polisi Caffael y Cyngor, fel a ganlyn:

Unrhyw waith o dan £24,000, mae'r polisi yn nodi y gall un contractwr brisio'r gwaith ond gyda gwaith dros y ffigwr hwn rhaid i bedwar contractwr brisio'r gwaith.

Felly, gall ymgeiswyr ond wneud cais i ddefnyddio eu contractwr eu hunain os yw'r gwaith o dan £24,000. Ar gyfer gwaith sydd wedi ei brisio uwchben y ffigwr hwn, gallent wneud cais i gynnwys eu contractwr yn y broses dendro fel un o'r pedwar contractwr. Fodd bynnag, os nad nhw yw'r tendr gyda'r pris isaf, efallai na fyddent yn derbyn y contract.

Bydd rhaid i holl gontractwyr gofrestru ar Proactis, system dendro'r Cyngor, er mwyn gallu derbyn tendr. Bydd hyn yn sicrhau bod y contractwyr yn ddilys, gyda'r yswiriant priodol ac yn sefydlog yn ariannol. Bydd hyn hefyd yn hwyluso'r taliad ar gyfer y gwaith a gwblhawyd yn uniongyrchol i'r contractwyr.

## 5. Taliadau Grant

Bydd taliadau grant yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r prif gontractwyr, yn amodol bod y gwaith yn cael ei gwblhau i safon foddhaol ac wedi'i gefnogi gan anfoneb gywir. Gellir gwneud taliadau interim ar waith mwy, yn destun amodau.

Ar ôl derbyn hysbysiad o gwblhau'r gwaith, bydd archwiliad llawn yn cael ei gyflawni. Bydd y taliad terfynol ond yn cael ei ryddhau pan fydd yr holl waith wedi cael ei gwblhau'n foddhaol yng ngolwg yr Awdurdod Lleol. Mewn achosion o anghydfod rhwng yr ymgeisydd a'r contractwr dros gwblhau'r gwaith grant i safon foddhaol, bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i farnu a rhyddhau'r taliad os yw'r contractwr yn briodol, fodd bynnag mae'r trefniant dan gontract ar gyfer ansawdd a gwarant rhwng y cleient a'r contractwr.

## 6. Cymorth Amgen

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru, sef Cymdeithas Budd Cymunedol gyda statws elusennol, sy'n darparu cyngor a chymorth ar addasiadau ac yn darparu mân addasiadau i eiddo. Maent yn cynnig nifer o grantiau eraill ar gyfer cwsmeriaid preifat er mwyn eu cynorthwyo gydag amryw o waith, megis atgyweiriadau tŷ ac ati.

Gellir cysylltu â Gofal a Thrwsio:

- Dros y ffôn ar 01352 758700 neu 03001113333
- Ar-lein ar www.careandrepairnew.co.uk neu trwy e-bost ar enquiries@careandrepairnew.co.uk neu drwy'r post, Gofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru, Place For You, Rowley's Drive, Shotton, Sir y Fflint, CH5 1PY

Mae cytundeb bod Gofal a Thrwsio yn prosesu unrhyw achosion bach ar ran CSFf, er enghraifft, darparu ramp modwlar bach ar gyfer achosion o'r ysbyty i'r cartref lle maent yn defnyddio eu stoc o rampiau wedi'u hailgylchu. Mae hyn yn fwy ecogyfeillgar a chost effeithiol.

## 7. Asesiad Ariannol

Gall grantiau fod yn destun 'prawf modd', gweler Meini Prawf Cymhwyso yn yr Atodiadau isod. Bydd gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth ariannol er mwyn helpu i gyfrifo a ydynt yn gymwys am grant ac os oes angen iddynt gyfrannu tuag at gost y gwaith.

Ni fydd angen prawf modd os ydynt yn derbyn un neu fwy o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth y Cyngor (ac eithrio gostyngiad person sengl)
- Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith
- Gwarant Credyd Pensiwn
- Credyd Cynhwysol
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth sy'n Gysylltiedig ag Incwm

## Atodiad 3

| MÂN ADDASIADAU | |
|---|---|
| **Pwrpas** | Gwaith a ystyrir fel rhai bach yn Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai Llywodraeth Cymru, mae'r rhain yn cael eu trin yn uniongyrchol gan Ofal a Thrwsio Gogledd Ddwyrain Cymru yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. |
| **Meini Prawf Cymhwyso** | Atgyfeiriad i Ofal a Thrwsio gan Therapydd Galwedigaethol yn cadarnhau bod y gwaith yn angenrheidiol ac yn briodol. |

| | |
|---|---|
| **Amodau** | Dim |
| **Swm** | Fel arfer yn llai na £1000 |

## Atodiad 4

| **ADDASIADAU DEWISOL** | |
|---|---|
| **Pwrpas** | Roedd adolygiad o addasiadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i holl Awdurdodau Lleol i greu polisi dewisol ar gyfer addasiadau canolig, ac mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 yn galluogi Awdurdodau Lleol i'w weithredu. |
| **Meini Prawf Cymhwyso** | Yr un meini prawf cymhwyso â Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl Gorfodol, heb y gofyniad am brawf modd. |
| **Amodau** | Fel y nodir yn y Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, bydd y grant ond yn cael ei dalu pan fydd y Cyngor yn fodlon bod y gwaith yn cael ei gwblhau i'w boddhad ac yn unol â'r cymeradwyaeth grant.<br><br>Os fydd cost amcangyfrifiedig y gwaith tu hwnt i'r uchafswm dewisol, bydd yr achos yn cael ei drin fel Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl gorfodol, a bydd prawf modd yn cael ei gwblhau er mwyn sefydlu ddylai'r swm sydd uwchben yr uchafswm dewisol gael ei dalu gan y cwsmer. |
| **Swm** | Uchafswm o £10,000. |

## Atodiad 5

| **GRANT GORFODOL CYFLEUSTERAU I BOBL ANABL** | |
|---|---|
| **Pwrpas** | Mar Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl ar gael i addasu eiddo er mwyn gweddu anghenion unigolyn anabl sy'n byw yn yr eiddo. |
| **Meini Prawf Cymhwyso** | Atgyfeiriad gan Therapydd Galwedigaethol yn cadarnhau bod y gwaith yn angenrheidiol ac yn briodol.<br><br>Addasiad yw'r cam gweithredu mwyaf boddhaol yn destun asesiad rhesymol ac ymarferol.<br><br>Ar gael i berchnogion tai, tenantiaid sy'n rhentu gan landlordiaid preifat, preswylydd cartref parc neu'n byw ar gwch preswyl. |

| | |
|---|---|
| | Mae’r swm Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn dibynnu ar incwm a chynilon yr unigolyn anabl a’i bartner/phartner, hyd yn oed os nad yr unigolyn anabl yw’r ymgeisydd am y grant (er enghraifft pan fydd cais yn cael ei wneud gan y landlord gyda thenant anabl).<br><br>Os yw’r incwm a chynilon yn is na’r cyfyngiadau prawf, ni fydd angen cyfraniad.<br><br>Os yw’r incwm a chynilon yn fwy na’r cyfyngiadau prawf, bydd angen gwneud cyfraniad tuag at gost y gwaith.<br><br>Nid oes angen prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl sy’n Blant (o dan 19 oed).<br><br>Nid oes angen prawf modd os yw ymgeisydd yn derbyn unrhyw un o’r budd-daliadau canlynol:<br>• Cymhorthdal Incwm<br>• Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm<br>• Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm<br>• Gwarant Credyd Pensiwn<br>• Budd-dal Tai<br>• Gostyngiad i Dreth y Cyngor<br>• Credyd Cynhwysol<br>• Credyd Treth Gwaith a/neu Gredyd Treth Plentyn os yw’r incwm blynyddol ar gyfer dibenion asesu hawliad i’r credyd treth yn llai na £15,050. |
| **Amodau** | Fel y nodir yn y Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, bydd y grant ond yn cael ei dalu pan fydd y Cyngor yn fodlon bod y gwaith yn cael ei gwblhau i’w boddhad ac yn unol â’r cymeradwyaeth grant.<br><br>Bydd unrhyw grant a ystyrir yn addasiad mawr, angen gosod Pridiant Tir Lleol yn erbyn yr eiddo.<br><br>Ar gyfer addasiadau mawr, bydd ad-daliad yn gymwys i gyfran y grant a ddyfernir uwchben £10,000, hyd at uchafswm o £26,000. Gorfodir ad-daliad os fydd yr eiddo yn cael ei werthu neu ei drosglwyddo o fewn 10 mlynedd o ddyddiad cwblhau ardystiedig, yn unol â Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (Amodau Cymeradwyo Cyffredinol 2008).<br><br>Pan fydd eiddo wedi’i roi yn enw unigolyn arall mewn ewyllys neu ddiffyg ewyllys, bydd marwolaeth y perchennog yn sbardun ar gyfer ad-dalu, oni bai bod yr eiddo yn brif fan preswylio’r sawl sy’n etifeddu’r eiddo ar adeg cyflwyno’r cais. Yn yr achos hwn bydd yr amodau i ad-dalu’r benthyciad neu gymorth grant a meddiannu’r eiddo yn trosglwyddo i’r perchennog newydd.<br><br>Bydd addasiadau a wneir mewn eiddo ar gyfer tenant preifat angen cymeradwyaeth y landlord preifat cyn i benderfyniad gael ei wneud am yr addasiad. |

| | |
|---|---|
| **Swm** | Uchafswm o £36,000.<br><br>Os oes unrhyw gostau anrhagweladwy sy'n achosi i gost y gwaith fynd tu hwnt i'r uchafswm grant o £36,000, bydd hyn yn cael ei ysgwyddo gan y Cyngor. Ni fydd hyn yn gymwys os yw'r cleient yn rheoli'r gwaith eu hunain neu os yw'r costau ychwanegol yn codi o eitemau ychwanegol y mae'r cleient eisiau, nad oedd yn ffurfio rhan o'r cytundeb grant gwreiddiol gyda'r Cyngor. |

## Atodiad 6

| **GRANT YCHWANEGOL DEWISOL** | |
|---|---|
| **Pwrpas** | Bydd grant yn cael ei ystyried mewn amgylchiadau lle bo'r gwariant sy'n ofynnol i ddarparu addasiad i berson anabl yn uwch na'r terfyn statudol (£36,000 ar hyn o bryd). |
| **Meini Prawf Cymhwyso** | Ymgeisydd sy'n gymwys am Grant Gorfodol Cyfleusterau i Bobl Anabl sydd angen ychwanegiad.<br><br>Mae gan yr ymgeisydd fuddiant perchennog.<br><br>Bydd Panel Asesiad yn cynnwys uwch swyddogion o Wasanaethau Cymdeithasol a Thai yn penderfynu os ellir cyflwyno ychwanegiad.<br><br>Yn destun prawf modd.<br><br>Mae'r grant yn ddewisol, ac mae argaeledd yn dibynnu ar fanylion pob achos yn unigol. Mae'n bwysig sicrhau ein bod yn diogelu ein pwrs cyhoeddus.<br><br>Efallai bydd cais am gyfraniad gan y cwsmer tuag at gost y gwaith yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau ariannol. |
| **Amodau** | Rhaid i'r eiddo gael ei feddiannu gan yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu (mewn achos plentyn) fel eu prif breswylfa.<br><br>Os oes morgais ar yr eiddo, cyfrifoldeb y perchennog yw hysbysu'r benthyciwr morgais y bydd ffi yn cael ei osod yn erbyn yr eiddo.<br><br>Os dyfernir Grant Ychwanegol Dewisol, bydd y swm llawn yn cael ei gofrestru fel Pridiant Tir Lleol.<br><br>Gorfodir ad-daliad os fydd yr eiddo yn cael ei werthu neu ei drosglwyddo o fewn 10 mlynedd o ddyddiad cwblhau ardystiedig, yn unol â Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (Amodau Cymeradwyo Cyffredinol 2008). |

| | |
|---|---|
| | Pan fydd eiddo wedi'i roi yn enw unigolyn arall mewn ewyllys neu ddiffyg ewyllys, bydd marwolaeth y perchennog yn sbardun ar gyfer ad-dalu, oni bai bod yr eiddo yn brif fan preswylio'r sawl sy'n etifeddu'r eiddo ar adeg cyflwyno'r cais. Yn yr achos hwn bydd yr amodau i ad-dalu'r cymorth grant a meddiannu'r eiddo yn trosglwyddo i'r perchennog newydd.<br><br>Gellir gwneud ad-daliad cynnar gwirfoddol ar unrhyw adeg a bydd y ffioedd yn cael eu tynnu. |
| **Swm** | Uchafswm o £29,000. |

## Atodiad 7

| **GRANT ADLEOLI** | |
|---|---|
| **Pwrpas** | Mae Grant Adleoli i gynorthwyo preswylwyr anabl i brynu cartref sy'n addas ar gyfer eu hanghenion hirdymor.<br><br>Mae'r eiddo presennol yn anaddas ar gyfer ei addasu ac nid yw'n diwallu eu hanghenion hirdymor gan nad yw'n hyfyw, rhesymol, ymarferol neu'n gost effeithiol. |
| **Meini Prawf Cymhwyso (ymgeisydd)** | Rhaid i gais gael ei wneud gan ddefnyddio'r ffurflen gais Grant Adleoli.<br><br>Mae gan yr ymgeisydd fuddiant perchennog yn yr eiddo ac yn byw yn yr annedd fel eu prif breswylfa.<br><br>Yn destun prawf o adnoddau ariannol, mewn achosion lle mae'r person anabl yn blentyn, bydd y rhieni neu warcheidwad sydd â buddiant perchennog yn yr eiddo adleoli, yn destun prawf cyfrifo adnoddau. |
| **Meini Prawf Cymhwyso (gwaith)** | Rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon y gall yr eiddo newydd gael ei addasu'n haws ac yn fwy cost effeithiol i ddiwallu anghenion hirdymor y deiliad anabl.<br><br>Adroddiad gan y Therapydd Galwedigaethol a'r Syrfëwr Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn cadarnhau bod y gwaith addasiadau yn angenrheidiol a phriodol a chadarnhad bod yr eiddo newydd yn diwallu anghenion hirdymor gyda'r gofyniad am rai addasiadau, ond ni ddylai'r rhain fod yn helaeth a dylent fod yn fwy cost effeithiol nac addasu'r eiddo presennol. |
| **Amodau** | Mae ad-dalu unrhyw Grant Adleoli yn gofyn am ad-daliad yn unol â Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 Amodau Cymeradwyo Cyffredinol 2008, os fydd yr ymgeisydd yn dewis gwaredu'r eiddo unai trwy werthu neu drosglwyddiad o fewn 10 mlynedd o'r dyddiad cwblhau. Rhaid i'r swm grant a ddyfernir gael ei roi fel pridiant tir lleol yn erbyn yr eiddo. |

| | |
|---|---|
| **Ariannol** | Uchafswm o £10,000.<br><br>Mae'r grant yn ddewisol, ac mae argaeledd yn dibynnu ar fanylion pob achos yn unigol a phrawf adnoddau.<br><br>I'w ddefnyddio er mwyn talu'r costau canlynol:<br>• Ffioedd gwerthwyr tai<br>• Ffioedd cyfreithwyr<br>• Costau symud<br>• Costau cysylltu â chyfleustodau hanfodol. |